Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Llywodraeth Cymru

17 Ebrill 2018

Annwyl Mark,

GOBLYGIADAU ARIANNOL BIL IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS AM ALCOHOL) (CYMRU)

Yn ddiweddar bu'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru). Efallai eich bod yn ymwybodol ein bod wedi gwneud yr argymhelliad canlynol yn ein Hadroddiad Cyfnod 1:

> **Argymhelliad 3:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn negodi gyda Thrysorlys EM ynghylch effaith lleihad posibl mewn refeniw o werthu alcohol. Byddai'n disgwyl i benderfyniad ar yr effaith ar y Fframwaith Cyllidol fod yn barod cyn pleidlais derfynol y Cynulliad ar y Bil yng Nghyfnod 4.

Yn ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i'n hadroddiad, mae'n cadarnhau bod swyddogion Trysorlys Cymru wedi cynnal trafodaethau gyda Thrysorlys EM ac yn datgan "nid ydym yn disgwyl i gyflwyno Pris Isafswm Uned (MUP) gael unrhyw effaith ar y fframwaith cyllidol a negodwyd â Llywodraeth y DU yn 2016, sydd ar hyn o bryd yn ymwneud â gweithrediad y pwerau cyllidol a ddatganolwyd i Gymru yn Neddf Cymru 2014".

Mae'r Fframwaith Cyllidol a gytunwyd rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU ym mis Rhagfyr 2016 yn trafod sgil-effeithiau polisi, a all ddigwydd pan fo penderfyniad gan un llywodraeth yn cael effaith ar dreth neu wariant llywodraeth arall (paragraffau 34-39). O ystyried y gostyngiad amcangyfrifedig mewn refeniw o dreth ar alcohol a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol a'r modelu wedi'i ddiweddaru, byddwn yn ddiolchgar am eich cadarnhad na fydd sgil-effeithiau y

pris isafswm uned a'r gostyngiad canlyniadol mewn treth ar alcohol yn effeithio ar ddarparu cyllid i Gymru.

Yn gywir

Simon Thomas
Cadeirydd